# papur priordy

## Rhaid i ni ddangos ein lliwiau Cristnogol os ydyn ni am fod yn driw i Iesu Grist

**CS Lewis**

*Gweler y nodyn dan tudalen blaen y tu mewn*

**Rhifyn 371**
**PAPUR TACHWEDD 2023**

# Gair gan ein Gweinidog

**…ond nid oes geiriau**

**7 Hydref 2023**. Y bore yr ymosododd Hamas drwy gyfrwng roced ar Israel. Y canlyniad?  Bu farw miloedd o Israeliaid ac anafwyd llawer mwy. Dyma oedd yr ymosodiad mwyaf marwol ar Israel yn y degawdau diwethaf.
Dilynwyd hyn gan olygfeydd o drais a ysgydwodd y ddynoliaeth drwyddi. Llofruddiwyd pobl gyffredin yn Israel yn ddidrugaredd, gan gynnwys plant a gwragedd.
**Gaza**. Lladdwyd miloedd ac anafwyd llawer, yn blant ac yn bobl o bob oed. Dinistriwyd cartrefi, ysgolion, meddygfeydd a chyfleusterau cyfathrebu. Gwelwyd yr ysbytai dan bwysau mawr. Gwelwyd cannoedd o filoedd o bobl yn ffoi. Meddiannwyd y Dwyrain Canol gan ddioddefaint a dychryn. Galwn ar lywodraeth y Deyrnas Unedig i wneud y cyfan a fedr i sicrhau heddwch.



**Gweddï mewn ymateb i'r argyfwng yn y Dwyrain Canol**

Dduw goleuni ac iachawdwriaeth,
Ti yw ein noddfa a'n nerth,

Gweddïwn dros bobl Israel a Phalestina
yng nghanol y trais cynyddol yn y dyddiau heriol a gofidus hyn.

Gweddïwn dros y rhai sy'n cael eu lladd a'u hanafu gan rocedi o Gaza yn ne Israel.
Bydded i'th allu di eu harwain at y dyfroedd tawel a'th wialen a'th ffon eu cysuro.

Gweddïwn dros y rhai sy'n galaru.
Bydded iddynt wybod a phrofi o'th gymorth holl-bresennol.
Wrth iddynt gerdded trwy ddyffryn tywyll du,
gweddïwn am dy amddiffynfa gadarn a'th gysur ar y daith.

Gweddïwn am ddiogelwch ar gyfer y rhai sydd wedi cael eu cymryd yn wystlon gan Hamas.
Wrth gerdded trwy'r dyffryn heriol hwn, na fydded iddynt ofni drwg.

Yn ogystal gweddïwn dros bobl gyffredin Gaza.
Bydded iddynt wybod mai ohonot Ti, greawdwr nef a daear y daw eu cymorth.

Gweddïwn am bawb sydd wedi colli anwyliaid ac wedi colli eu heiddo a'i cartrefu.
Cofiwn yn arbennig am bawb sydd wedi cael eu lladd a'u clwyfo yn Gaza heddiw –
bydded i Ti gysuro ac iacháu'r rhai sydd mewn poen a'r rhai sydd wedi colli anwyliaid.

Gweddïwn dros y ffoaduriaid sy'n ceisio gadael a darganfod lle diogel – cadw nhw'n ddiogel ar y daith, a'u harwain i fan lle cânt groeso a noddfa dros dro.

A gweddïwn dros y rhai sydd mewn sefyllfa o awdurdod a grym yn Gaza ac Israel.
Gweddïwn y bydd i Ti eu harwain ar hyd y llwybrau cywir a ffordd cyfiawnder.
Gofynnwn hyn oll mewn undeb â Christ gan ymddiried yn nerth dy Ysbryd Glân.

**Amen**

***Gweddi o 'Cennad' Hydref 2023***



**PANED A SGWRS**



**Bore Mercher - 10.30 - Gwesty'r Llwyn Iorwg**
**24 Ionawr 2024**
**Cyfle am baned, sgwrs a myfyrdod byr**



**MUNUD I FEDDWL**
**Bydd ein Gweinidog yn cyflwyno *Munud i Feddwl* (yn ystod rhaglen *Bore Cothi* ar *Radio Cymru)* bob bore Mawrth yn ystod mis Tachwedd**

## DARLLENIADUR

| Mis Tachwedd | Darlleniad |
|---|---|
| Wythnos 1 | Salm 107:1-7, 33-37 |
| Wythnos 2 | Salm 20 |
| Wythnos 3 | Salm 123 |
| Wythnos 4 | Salm 100 |

**DIOLCH YN FAWR**

***Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad***

**DYDD GWEDDI'R BYD**

**GWYNN AC ANN BOWYER**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***



**YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?**
**Cyswllt**
**PHILIP JONES**
**Trysorydd**
**☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk**

**CWRDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR Y PRIORDY**

**Nos Fercher 15 Tachwedd 2023 am 7**
**yn y Festri**
**Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid a'r ymddiriedolwyr eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda.**
***Bydd y swyddogion yn aros ymlaen ar ddiwedd y cyfarfod i ddechrau paratoi ar gyfer Adroddiad Blynyddol 2023***

**Mae Natalie Morgan sy'n astudio yng Ngholeg y Bedyddwyr yng Nghaerdydd, yn ymuno â'n Gofalaeth fel rhan o'i chwrs paratoi ar gyfer y weinidogaeth. Bu Papur Priordy'n sgwrsio â hi...**



**PP: Fe gawsoch eich geni a'ch codi yn Sir Benfro. Soniwch ychydig i ddechrau, Natalie, am eich bro enedigol.**

**NM**: *Do, ces i fy ngeni yn Hwlffordd a'm magu mewn pentref bach o'r enw Y Mot (New Moat yn Saesneg), rhwng Maenclochog a Llysyfran. Mae'n ardal hyfryd. Dw i'n cofio cerdded lan Foel Eryr yn y Preselau, gyda fy mrawd a'm chwaer, pan oedd hi'n bwrw eira a llithro o'r pen i'r gwaelod ar beth bynnag o'n ni'n gallu ffeindio yn y garej. Dw i'n cofio reidio'r beic lawr i'r caffi yn Llysyfran ac o gwmpas y llyn. Ymunais â Chlwb Ffermwyr Ifanc Llysyfran pan o'n i'n 12 oed, lle ro'n i'n cymryd rhan yn yr eisteddfodau a'r dramâu. Mae fy mam yn dod o Bosherston yn wreiddiol, felly ro'n i'n treulio llawer o amser lawr yn ne'r sir gyda mam-gu a thad-cu. Mae'n ardal mor braf, ac mae atgofion melys gyda fi o redeg rownd y Lilly Ponds tuag at draeth Broadhaven South. Dw i'n dal yn hoff iawn o gerdded y llwybr yna a llwybr arfordir Sir Benfro. Mae fy ffôn yn llawn lluniau o'r môr, y traethau a'r arfordir.*

**PP: Mae'n wir dweud fod y capel wedi chwarae rhan bwysig yn eich magwraeth.**

**NM:** *Roedd Mam yn mynychu'r eglwys Anglicanaidd yn y Mot ac roedd fy Nhad yn mynychu Capel y Bedyddwyr Siloam yn Gelli, felly ces i fy magu yn y ddau enwad. Fel plentyn, ro'n i'n awyddus iawn i godi fy llaw i ateb cwestiynau'r gweinidog (cwestiynau rhethregol fel arfer). Yn fy arddegau dechreuais i ganu'r organ yn yr eglwys a'r capel. Erbyn i fi fynd i'r brifysgol, ro'n i'n gwneud mwy a mwy yn y capel - yn cymryd rhan yn oedfaon y Nadolig a'r Pasg. Roedd y capel yn rhan bwysig iawn o'm mywyd wrth i mi dyfu lan. Er bod fy rhieni yn mynychu'r capel neu'r eglwys, do'n ni ddim yn trafod ffydd adre. Felly roedd mynychu'r capel yn gyfle i fi ddysgu mwy a mynegi fy ffydd, trwy*



*gerddoriaeth, trwy ganu a thrwy gyhoeddi'r gair.*

**PP: Chi bellach yn byw yn Aberteifi ac yn addoli yno**.
**NM:** Ydw. Symudais i i Aberteifi nôl yn 2018. Dw i'n dwlu ar y dre a mae gen i atgofion melys yn dod i'r dre ar ddydd Sadwrn pan o'n i'n ifanc, yn cael pick & mix o Woolworths a mynd i weld ffilm yn y Mwldan. Cyn i fi symud, ro'n i'n ymwybodol o'r gymuned agos yn Aberteifi. Ro'n i'n moyn chwarae rôl weithredol yn y gymuned. Dechreuais i fynychu oedfaon yng Nghapel Bethania a des i'n aelod




yno yn 2021. Ro'n i'n nabod ambell i aelod cyn i fi symud yno a roedd pawb mor groesawgar a chyfeillgar. Ro'n i'n teimlo fel rhan o'r teulu o'r foment y cerddais i drwy'r drws. Rydw i wedi mwynhau cymryd rhan mewn oedfaon a chymryd oedfaon cyfan ers i fi ddechrau pregethu. Mae'r eglwys a'r gweinidog, **y Parch Irfon Roberts** a'i wraig Mair, wedi bod yn gefnogol iawn wrth i fi ystyried a phrofi'r alwad.



**PP: Beth am eich gwaith dyddiol?**
**NM:** *Dw i wedi bod yn gweithio i Gyngor Sir Benfro ar y Rhaglen Gyflogaeth a Chymorth ers 2016. Mae'r rhaglen yn cynorthwyo pobl ynghylch chwilio am swyddi, profiad gwaith a hyfforddiant - yn enwedig pobl gydag anableddau, anghenion dysgu, Awtistiaeth a phroblemau iechyd meddwl. Rydw i hefyd yn cynorthwyo cyflogwyr i greu gweithle cefnogol a chynhwysol. Fel rhan o'm swydd, rydw i hefyd yn cydweithio gyda phrosiectau a mudiadau eraill. Ond i fi, y rhan bwysicaf yw magu hyder a chodi dyheadau. Mae cymaint o bobl gydag anableddau, anghenion dysgu ac Awtistiaeth sy erioed wedi ystyried gwaith, ond mae'n codi'r galon i'w helpu nhw i ymchwilio i beth sy'n bosib gyda bach o gymorth.*

**PP: Tybed pryd a sut cawsoch chi'ch ysgogi i ymgeisio am y weinidogaeth?**
**NM:** *Ro'n i'n tueddu i deimlo rhyw gysylltiad arbennig â'r eglwys a'r capel yn tyfu lan. Dw i'n cofio dweud pan o'n i'n ifanc mod i'n moyn*

*bod fel y Vicar of Dibley. Ond wrth i fi dyfu lan, ac wrth i bobl ddechrau gofyn mewn gwirionedd a o'n i wedi ystyried mynd am y weinidogaeth, "Na", ro'n i'n ei ddweud. "Dw i moyn bod yn athrawes". Felly dyna beth wnes i. Ond ar ôl cael profiad fel athrawes, a gofalwraig, a gweithio gyda theuluoedd mewn ysgolion, ro'n i'n dal i deimlo ar goll. Fel pe bai'r Sat Nav wedi fy arwain i lawr y llwybr anghywir. Ro'n i'n gwneud "cyflwyniadau" yn y capel (do'n i ddim yn teimlo mod i'n gallu eu galw nhw'n "bregethau"), ond fel y rhan fwyaf ohonon ni, ro'n i'n sicr mod i'n gwybod y ffordd. Ond fy ffordd fi oedd honno, fy llwybr i, nid llwybr Duw. Ar ôl cael y cyfle i arwain oedfa gyfan yng Nghwm Gwaun, ro'n i'n dechrau teimlo fel bod y Sat Nav yn fy arwain nôl i'r llwybr cywir. Ces i bach o gymorth gyda'r cyfarwyddiadau gan ffrindiau yn y weinidogaeth, y gymuned ac wrth gwrs fy nheulu (diolch Nan). Roedd Duw yn dangos y map i fi, yn dangos lle ydw i wedi bod a sut mae'r "scenic route" yna'n dal wedi fy arwain i nôl at yr heol gywir, gan fagu hyder, cael profiadau gwahanol a dysgu sgiliau gwahanol ar y ffordd. Felly, ches i ddim moment benodol pan sylweddolais i taw dyma beth yw ewyllys Duw. Siwrne yw hi. Mae E'n fy adnabod i, yn styfnig weithiau, yn gorfod ystyried popeth yn fanwl cyn dod i'r sylweddoliad. Mae E'n fy adnabod i, a felly pan es i ar y "scenic route", roedd E yna yn sibrwd "take the second exit", "in 100 yards turn right", "continue on this road" a dw i'n teimlo ei fod e'n dweud wrtho i nawr "you have arrived at your destination".*




**PP: Enilloch chi'ch gradd gyntaf mewn Addysg Grefyddol a Cherddoriaeth ym Mhrifysgol Caerdydd. Beth am y cyrsiau ers hynny yng Ngholeg y Bedyddwyr yng Nghaerdydd?**

**NM:** *Pan ddechreuais i ystyried yr alwad i'r weinidogaeth, cysylltais â phennaeth Coleg y Bedyddwyr. Dechreuais i ar gwrs Pathways, yn mynychu sesiynau un Sadwrn y mis dros ddwy flynedd. Daeth myfyrwyr o wahanol gefndiroedd at ei gilydd - rhai yn ystyried galwad i'r weinidogaeth, rhai yn cymryd rôl arweiniol yn eu heglwysi'n barod, a rhai oedd yna i ddysgu mwy am Dduw, y Beibl ac addoli. Daeth rhai o gapeli Saesneg a thair ohonon ni o gapeli Cymraeg - rhai o gapeli mawr yn Ne Cymru, o Gaerdydd ac Abertawe, a rhai o gapeli bach. Daeth ambell un o enwadau eraill. Annibynwyr, Presbyteriaid a Bedyddwyr yn dod at ei gilydd i ddysgu a*

South Wales Baptist College
Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd

*thrafod ewyllys Duw a'i Air. Rydw i mor ddiolchgar am y cyfle i fynychu'r coleg, ac i astudio ar y cwrs Pathways. Dwy flynedd yn ôl, dim ond dysgu mwy ro'n i moyn ei wneud. Dros y ddwy flynedd yn y coleg dw i wedi ystyried, trafod a phrofi'r alwad. Mae pawb yn dweud eich bod chi'n creu rhwydwaith hanfodol yn y coleg. Ond maen rhaid i fi ychwanegu at hyn. Dw i wedi cwrdd â ffrindiau da. Rhai sy'n parhau yn y coleg fel fi, rhai sy'n parhau ar lwybrau gwahanol. Nid dim ond rhwydwaith ydyn ni, ond cymuned, teulu.*

**PP: Rych chi'n pregethu o Sul i Sul. Sut ydych chi'n mwynhau'r profiad hwnnw?**
**NM:** *Dechreuais i bregethu tua dwy flynedd yn ôl. A dw i'n wir wedi mwynhau pob eiliad, pob her, pob dathliad, pob oedfa. Yn edrych nôl ar fy Sul cynta, dw i'n cofio cynnal oedfa yng Nghapel Jabes, Cwm Gwaun a Tabor, Dinas Cross. Wel am nerfau! Dw i'n cofio stopio bron bob dwy funud, yn 'tongue tied' wrth geisio darllen yn gyflym beth oedd ar y papur air am air. Ro'n i'n dweud "sori" bob tro. Dros y ddwy flynedd diwetha, dw i wedi dysgu sut i ddelio â'r nerfau, a magu hyder yn fy hun a hefyd yn y ffaith bod Duw gyda fi bob cam o'r ffordd. Rydw i'n hoff iawn o ddod i nabod pobl a dw i wedi mwynhau dod i nabod cynulleidfaoedd wrth i fi ddychwelyd i'r capeli dro ar ôl tro. Fe ddwedodd un o'n ffrinidau ar ôl y Sul cynta 'na, "Fydd dy Suliau byth yr un peth". A dw i'n diolch i Dduw bob dydd bod hynny'n wir. Ond mae mwy i fod yn weinidog na sefyll yn y pulpud ar ddydd Sul a dw i'n edrych ymlaen at fod yn rhan o'r gymuned***.**

**PP: Byddai llawer yn dweud eich bod yn mentro i'r weinidogaeth ar gyfnod ofnadwy o heriol ond tybed a ydych chi'n llawn gobaith serch hynny!**
**NM***: Yn anffodus, dw i wedi clywed hyn sawl gwaith yn barod. Yn wir, mae'n cyfnod heriol gyda niferoedd yn y capeli yn lleihau, capeli yn cau. Mae llai o bobl yn trafod eu ffydd, llai o bobl yn troi at Iesu, at Dduw, llai o bobl yn credu. Ond, heb her, does dim unrhyw beth i anelu ato. Ydy, mae'n gyfnod heriol iawn ond, gallwn ni feddwl amdano fel cyfnod gyffrous iawn hefyd. Cyfle i ni gamu mas o'r adeilad ac i mewn i'r gymuned. Mae'n gyfle i ni ailystyried sut gallwn ni ymestyn mas at y rhai sy'n teimlo'n wan eu ffydd. Mae'n gyfle i ni ystyried sut gallwn ni dderbyn esiampl Iesu a'i ddilyn mewn oes fodern. Mae'n gyfle i ni feddwl am ffyrdd cyfoes i ddangos bod Duw yn ein caru. Dyw'r*

*Newyddion Dda ddim ar gyfer cyfnodau da yn unig. Dyma'n cyfle i rannu'r Newyddion Da a chael effaith go iawn ar bobl.*

**PP: Ydych chi'n gweld lle i dechnoleg fodern yn eich cenadwri?**



**NM**: *I fi, mae technoleg fodern yn rhan hanfodol o'n cenadwri. Mae'n llwyfan i ni gysylltu â phobl sy falle'n moyn cysylltu â'r eglwys ond heb yr hyder i gerdded trwy'r drws. Gall fideos ar YouTube, ffrydio'n fyw ar Facebook, negeseuon o gyfeillgarwch ar Whatsapp agor y drws tipyn bach. Gall eu helpu i deimlo eu bod yn rhan o'r gymuned. Dros y blynyddoedd, mae hi wedi dod yn amlwg bod pobl yn cysylltu â phethau yn eu ffordd eu hunain. Mae angen i rai glywed, mae angen i rai wneud, neu wrando. Mae angen i rai weld. Felly mae'n synhwyrol i ni fod yn ymwybodol o hyn a defnyddio technoleg fodern er mwyn helpu pobl i gysylltu â Duw mewn ffordd sy'n addas iddyn nhw. Gall lluniau ar y sgrîn fawr neu gân ar YouTube helpu pobl i deimlo presenoldeb Duw. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn gallu agor lan yr eglwys leol i'r eglwys fyd-eang. Rydyn ni'n aelodau yng Nghapel y Priordy yng Nghaerfyrddin, yng Nghapel Bethania yn Aberteifi gyda'n gweinidogion yn ein harwain a'n cynorthwyo. Ond yn fwy pwysig na hyn, rydyn ni'n aelodau yn Eglwys Duw, gyda Iesu yn ein harwain a'n cynorthwyo. Eglwys sy'n ymestyn dros y byd i gyd. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn ein helpu ni i gysylltu â'n Heglwys a'n cymuned ehangach.*

**PP: Chi'n aelod gyda'r Bedyddwyr ac yn dod atom i Ofalaeth sy'n cynnwys eglwysi Annibynnol a Phresbyteraidd. Fyddech chi'n cytuno fod gweld y Coleg yn gweithredu'n drawsenwadol fel hyn yn beth da?**

**NM:** *Ydw. Dw i'n teimlo'n gryf bod rhaid i ni gydweithio. Mae'n dangos ein bod ni'n un eglwys trwy Iesu Grist. Rydw i'n ffodus iawn i ddechrau fy nghwrs Meistr mewn cyfnod cyffrous iawn yn y coleg. Mae'n fendithiol i allu trafod sut y gallwn ni gydweithredu yn enw Iesu. Dw i wedi mwynhau dod i nabod myfyrwyr o'r enwadau eraill ac yn edrych ymlaen at fod yn rhan o'r gymuned drawsenwadol.*


**PP: Wel Natalie, mae bywyd llawn iawn gennych ond gobeithio'ch bod yn mwynhau rhai oriau hamdden o leiaf! Beth tybed sy'n**

**mynd â'ch bryd yn eich amser rhydd?**
**NM:** *Dw i'n dwlu ar fynd am dro a thynnu lluniau. Sdim byd yn well er mwyn gwasgu'r botwm "reset". Gwerthfawrogi natur, teimlo'n iach yn y corff a'r pen. Fy hoff beth yw cerdded ar hyd yr arfordir neu ar y traeth yn yr hydref neu'r gaeaf. Het, sgarff, menyg a fflasg o siocled poeth. Dw i hefyd yn aelod o Gôr Crymych, ond rhaid cyfadde, nid unawdydd ydw i. Dw i'n hoffi canu'r piano ond mae'n anodd ffeindio'r amser i jyst eistedd a chwarae'r dyddiau 'ma. Dw i'n gobeithio ailgydio yn y fiola rywbryd. Rhywbeth sa i wedi'i wneud ers blynyddoedd. Mae yna fand addoli yn y coleg - dyna'r cyfle efallai!*

**Diolch yn fawr iawn i chi am ateb y cwestiynau Natalie. Ryn ni'n edrych ymlaen yn fawr at eich cwmni yn ein Gofalaeth. Pob dymuniad da i chi.**

**Bydd Natalie'n cael ei chyflwyno i aelodau'r Priordy yn ystod yr oedfa ar Fore Sul 12 Tachwedd 2023**






***BLYCHAU STAMPIAU A CHETRYS Y PRIORDY***

***Croeso i chi gyfrannu***

***Y cyfan yn mynd at achoson da***

**Bydd Calendr Adfent Digidol yn cael ei ryddhau bob dydd yn ystod mis Rhagfyr eleni eto**



**LLONGYFARCHIADAU**

**Llongyfarchiadau mawr i Alison Parsons a'i thîm ar godi £1359.50 at Gronfa MacMillan drwy'r Bore Coffi llwyddiannus a gynhaliwyd yng Nghlwb y Cwins, Abergwili, ddiwedd Medi. Ardderchog yn wir!**

# BORE COFFI MACMILLAN





















# GŴYL DDIOLCHGARWCH Y PRIORDY


















**Mwynwen Jones…**



## Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant

***AR*** ddechrau mis Hydref, cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant. Er taw gwasanaeth gan y plant oedd hwn, gwnaeth nifer o'r oedolion gyfraniadau gwirfoddol at Fanc Bwyd Caerfyrddin a'u cyflwyno i gyfeiliant croesawgar Band y Priordy.

Cafwyd gweddi agoriadol gan ein gweinidog Beti-Wyn ac fe gyhoeddodd yr emyn 'Agor ein llygaid'. Tro'r plant oedd cyflwyno'u cyfraniadau at y Banc Bwyd - rhai ohonynt gyda bagiau bron yr un maint â nhw ei hunain.



Yna, cyd-lefarwyd Salm 104: 10-15 sy'n sôn am gymaint yw cyfraniad Duw i ni, yn darparu nentydd sy'n disychedu'r anifeiliaid ac yn llenwi'r ddaear â ffrwythau, yn rhoi porfa i'r gwartheg, planhigion i bobl gael bwyd o'r tir a bara i'n cadw'n fyw.

Greta Wyn gyflwynodd yr emyn nesaf 'Diolch Diolch Iesu' a hynny o'i chof.

Wedi'r cyhoeddiadau, cyhoeddwyd yr emyn 'Caraf yr haul' gan Aneurin a hynny'n 'wên i gyd'.


Daeth Gwern ymlaen i nodi cymaint sydd gennym i fod yn ddiolchgar amdano a'r pwysigrwydd o ddweud y gair bach 'Diolch'. Ar y sgrin, cyflwynwyd cân hwyliog oedd yn gyfarwydd iawn i'r plant, sef cân 'Diolch' gan rai o gyflwynwyr Sioe Cyw ar S4C. Yna, fe gyd-ganwyd yr emyn 'Meddwl am fyd...'

Trystan oedd yn darllen gan esbonio bod yr Hydref a'r cynhaeaf yn amser da i ddiolch am y bwyd sy'n cael ei dyfu ond yn amser i gofio hefyd am bobl sydd ddim yn cael yr holl fwyd a diod rydyn ni'n eu mwynhau. Diolchodd am ddŵr glân, ac am bobl sy'n tyfu a pharatoi ein bwyd. Diolchodd hefyd am oleuni a gwres yr haul, am fwyd o'r môr

ac am gynhaeaf o’r ddaear.  Yn ystod y darlleniad, cyflwynodd Elliw, Cadi,Brynmor, Non ac Ifan eitemau gwahanol oedd yn cynrychioli’r holl bethau hyn o dorth o fara, potel o ddŵr, planhigyn, pysgodyn a hyd yn oed lamp glo.

Wedyn, mewn gweddi glir gan Lliwen, diolchodd i Dduw am yr holl sy’n cael ei ddarparu gan Dduw ar ein cyfer gan ymbil arno i’n helpu ni i ofalu am ein byd a pheidio â bod yn hunanol gan ddiolch am bob dim rydym yn ei gael.

Cadi Wyn gyhoeddodd yr emyn nesaf sef ‘O O O Mor dda yw ein Duw’ - emyn sy’n cyfeirio at y rhodd bennaf mae Duw wedi ei rhoi ni, ‘rhoi ei unig Fab er mwyn i ni gael byw’.  Fe ganwyd yr emyn yn llawn egni a’r plant i gyd yn cymryd offeryn ac yn moli drwy gerddoriaeth.



Cafwyd gair gan Beti Wyn a aeth ati i esbonio cymaint o bobl sydd angen i ni fod yn ddiolchgar iddynt am dorth o fara - ‘ein bara beunyddiol’.  Esboniodd bod ei bara hi angen pum cynhwysyn – blawd, halen, burum, olew olewydd a dŵr, ac esboniodd sut mae pob un o’r eitemau hynny’n cael eu creu a’r holl bobl sydd ynghwm wrth y broses o’u paratoi a’u cael i’w chartref.

Sylweddolwyd gymaint yr ydym yn dibynnu ar bobl eraill yn ein byd er mwyn i ni gael ‘ein bara beunyddiol’.

***YN*** bwrpasol iawn, yr emyn clo oedd ‘Cofia bob amser, cofia bob tro…, cofia ddweud ‘Diolch, Iôr.’

## *OEDFA’R HWYR*

*Llywyddwyd Oedfa’r Hwyr gan ein Gweinidog. Cymerwyd rhan gan Peter Hughes Grififths (darlleniad) a Catrin Heledd Jones (Gweddi). Y Pregethwyr Gwadd oedd y Parchedig Tecwyn Ifan. Cymerodd Ŵyl y Pebyll yn thema i’w fyfyrdod. Ar hyd y canrifoedd mae pobl wedi gweld yr angen am Babell y Cyfamod, neu gapel neu deml neu dabernacl, i fynegi eu diolch i Dduw am gynhaliaeth corfforol ac ysbrydol. Hyd yn*

*oed yn ein dyddiau ni, pan fo sawl man addoli mewn perygl, mae pobl yn dal i weld yr angen i dalu diolch am hyn ond efallai drwy gyfrwng gwahanol neu fangre gwahanol. Mae Duw trwy Iesu'n codi pabell hefyd ymhlith ei bobl ble bynnag y bônt ac fel rhan o'n diolchgarwch braint ei ddilynwyr yw gweithio dros eraill sy'n llai ffodus na ni a diogelu'r greadigaeth a'r amgylchedd a gweithredu drostynt. Ar ddiwedd ei fyfyrdod cawsom ddatganiad hyfryd ganddo o'r gân 'Gweithred Gobaith' gan Mererid Hopwood sy'n dweud nad yw gobeithio y daw pethau'n well arnom yn ddigon, a bod yn rhaid i ni roi ein gobeithion ar waith ein hunain. Gweinyddwyd y Cymun gan ein Gweinidog gyda chymorth Gwynfor Davies a Huw Michael. Roedd Heather Williams wrth yr organ. Mwynhawyd gwledd yn y Festri wedi'r oedfa – diolch i garedigrwydd Chwiorydd yr Eglwys.*

## CORNEL

## CODI GWÊN!

Gofynnodd yr athrawes Ysgol Sul i'r plant dynnu llun o'u hoff stori yn y Beibl. Tynnodd un bachgen bach lun awyren. Gofynnodd yr athrawes i'r bachgen: 'Pwy sydd yn yr awyren?'. Atebodd: 'Mair, Joseff a'r baban Iesu.' 'Ond pwy yw'r un sy'n eistedd ym mlaen yr awyren,' gofynnodd yr athrawes? 'Pontiws yw hwnnw' meddai'r bachgen, 'fe yw'r Peilot'!

**Dydd Gweddi Byd-Eang**
**Is-bwyllgor Cymraeg Rhyngwladol**

**Cynhadledd i Baratoi ar gyfer Dydd Gwedd 2024**

**Dydd Mercher, 29 Tachwedd 2023 – 10.30-12.00**
**Festri Capel Heol Awst**
**Thema: Rwy'n erfyn arnoch i oddef eich gilydd mewn cariad**
**Paratowyd y gwasanaeth ar gyfer 2024 gan ferched Palestina**

**Croeso cynnes i bawb**

**Angharad Wyn….**



## Ymweld â Chartref Erw Hir
## Bore Sul, 15 Hydref 2023

***MAE*** ymweld â chartref Erw Hir wedi dod yn rhan bwysig o galendr yr Ysgol Sul ac roedd pawb yn awyddus iawn i baratoi gwasanaeth bach arall i'r preswylwyr. Gan ei bod hi'n fis Hydref, beth well na sôn am bwmpenni a chyfleu neges o ddiolchgarwch?

Ar ôl diolch am y croeso ac egluro ein bod wedi dod o Gapel y Priordy, dechreuom ein gwasanaeth drwy gydganu Calon Lân. Roedd y plant a'r henoed wrth eu bodd a'r canu'n werth ei glywed!

Tro Gwenan ac Elliw oedd hi nesaf i ddarllen darn arbennig o waith y diweddar Alice Evans i ni, sef "Popeth Cain a Phrydferth."

***Pop peth cain a phrydferth, a phob creadur byw,***
***pob peth sy'n ddoeth a rhyfedd, fe'u gwnaethpwyd oll gan Dduw.***

***Pob blodyn bach sy'n agor, pob deryn bach a gân,***
***Duw wnaeth eu lliwiau gloyw, Duw wnaeth eu hesgyll mân.***



***Y mynydd dan ei borffor, yr afon ar ei thaith,***
***y machlud a'r boreuddydd oleua'r wybren faith.***

***Yr oerwynt yn y gaeaf, yr haul sy'n heulo'r byd,***
***y ffrwythau yn y berllan, - Duw wnaeth y rhain i gyd.***

***Rhoes lygaid inni'u gweled, a gwefus a barha***
***i foli'r Hollalluog a wnaeth pob peth yn dda.***

Y rhai bach oedd wrthi nesaf- Martha, Miriam, Hedd, Brynmor, Neli, Sianco a Mali. Gan ddal llythrennau oedd yn sillafu'r gair "Diolch", bu'r saith yn sôn am rai o'r pethau rydyn ni'n diolch amdanynt gan gynnwys chwerthin a chwarae.

Tro Greta Marged ac Aneirin oedd hi nesaf i ganu cân am y cynhaeaf, 'Law yn llaw', a chanodd y ddau ar dop eu lleisiau.


Mae Beti-Wyn wedi bod yn brysur yn crwydro'r ardal gyda'i phwmpen dros yr wythnosau diwethaf felly penderfynwyd mynd â'r neges at breswylwyr Erw Hir hefyd. Soniodd Greta Fflur, Glyndwr, Gwenllian, Greta Marged, Aneirin, Alys a Cadi sut roedd cerfio pwmpen mewn ffordd wahanol eleni er mwyn cyfleu neges Iesu Grist.

Arweiniodd Beca ni i gyd mewn gair o weddi cyn i ni orffen y gwasanaeth gyda chaneuon y plant. Roedd pawb yn llawn bywyd wrth ganu "Cofia bob amser", "Pwy wnaeth y sêr uwchben" a "Diolch Diolch Iesu" a'r gynulleidfa wrth ei bodd!

***ROEDD*** hi'n braf cael sgwrs gyda'r preswylwyr ar ddiwedd y gwasanaeth ac edrychwn ymlaen at ddychwelyd atyn nhw unwaith eto.

**Llyfr Newydd**

**Griffith Jones Llanddowror**




*Cyfrol sy'n adrodd sut y daeth Sir Gaerfyrddin, ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif, yn bwerdy newidiadau a effeithiodd ar Gymru benbaladr. Ac un gŵr – y Parch. Griffith Jones, Llanddowror, a lywiodd y cyfan.*

Cyswllt: Peter Stopp, Uplands Farm, Llan-dwg, Talacharn SA33 4RE. £5 y copi (+ £2.50 am lapio a chludiant)

**Dysgwch sut yr aeth ati i**:

- ddylanwadu ar arferion eglwysig Cymru;
- ysbrydoli llu o gefnogwyr, a pharatoi ar gyfer sefydlu Eglwys Bresbyteraidd Cymru;
- greu cenedl lythrennog trwy drefniadaeth yr Ysgolion Cylchynol Elusennol;
- sicrhau statws i'r Gymraeg;
- sefydlu Caerfyrddin yn un o brif ganolfannau argraffu Cymru.

**Cymdeithas Hynafiaethau Sir Gaerfyrddin**

**Cynhadledd / Dydd Treftadaeth**

**DYDD SADWRN 11 TACHWEDD 2023: 8.45 am – 4.00 pm**
**Neuadd Ddinesig San Pedr, Maes Nott, Caerfyrddin**
**GRIFFITH JONES**
**Goleuni Sir Gâr yn ystod y 18 ganrif a'i ddylanwad ar werin Cymru**

# YR YSGOL SUL YN ERW HIR















# GWEITHGARWCH YR YSGOL SUL





















# *Ifanc@Priordy*

## DIOLCHGARWCH

**Diolch yn fawr iawn i bawb am y rhoddion i'r banc bwyd! Gwych!**




## ERW HIR

**Mae aderyn bach wedi dweud wrthyf eich bod wedi cynnal gwasanaeth diolchgarwch ardderchog yng Nghartref Erw Hir. Da iawn chi!**

## NADOLIG

**Byddwn yn ymarfer ar gyfer y Nadolig cyn bo hir. Hwre! Apêl i bawb sy' am gymryd rhan yn ein gwasanaeth Nadolig i ddod i'r Ysgol Sul ar gyfer ymarferion y 3 wythnos yn arwain i fyny at y gwasanaeth. Diolch!**





# CHWILOTAIR BEIBLAIDD LLYTHYREN 'LL'

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | O | D | I | Y | O | F | R | L | L | L | A | L | N |
| D | D | O | R | A | F | E | L | L | L | L | L | H | L |
| L | L | W | Y | B | R | R | U | W | Y | A | L | A | L |
| U | A | G | N | O | L | L | L | Y | W | W | L | L | A |
| L | L | L | L | E | F | A | I | N | O | E | I | L | B |
| L | L | H | D | U | A | R | F | O | D | N | N | L | Y |
| U | I | O | L | O | O | B | L | G | R | Y | Y | E | D |
| A | T | U | N | L | F | G | B | W | A | D | N | W | D |
| H | H | E | Y | Y | L | L | U | O | E | D | D | Y | I |
| T | R | W | L | Y | D | L | D | L | T | D | D | R | O |
| Y | I | U | Y | D | L | D | L | L | H | A | A | C | R |
| W | G | W | U | L | A | L | L | O | W | L | L | H | R |
| L | A | L | L | A | I | S | I | E | Y | I | L | U | R |
| L | U | L | L | Y | F | R | I | R | R | H | L | Y | D |

LLABYDDIO
LLAIS
LLYWODRAETHWYR
LLWYNOG
LLUOEDD
LLWYTHAU
LLONYDD
LLEFARODD
LLITHRIG
LLADD
LLAWENYDD
LLONGAU
LLWYBR
LLYFR
LLEWYRCHU
LLOER
LLEFAIN
LLINYN

Byddwn yn cefnogi Apêl Anrhegion Nadolig Cyngor Sir Gâr eto eleni. Hoffech chi gefnogi? Manylion llawn mewn man arall yn y papur hwn. Diolch

**Hwyl tan tro nesaf,**
*Beti Wyn*



# PARATOI AR GYFER GŴYL Y DAFFODIL

## Ymgyrch ein Cyngor Tref i gael cyflenwad o Gennin Pedr yn tyfu o gwmpas ein tref














## CWRDD DIOLCHGARWCH CARTREF PLAS-Y-DDERWEN

**Roedd Lolfa'r Cartref yn llawn ar gyfer y gwasanaeth a diolch i aelodau'r Ofalaeth a ymunodd â'r trigolion. Arweiniwyd y gwasanaeth gan ein Gweinidog ac roedd Mai Thomas wrth yr organ i gyfeilio'r canu. Roedd gan y bwmpen ran allweddol ym myfyrdod ein Gweinidog a'r weddi sy'n seilieidg arni'n cynnig sawl gwers i ni.**

**Mwynhawyd lluniaeth ysgafn ar ddiwedd y gwasanaeth, diolch i garedigrwydd staff y Cartref.**







**Papur Priordy yn cofio..**

## Maria Jane Williams
## 1795 - 1873
## Cerddor a Llên-werinwraig

***BOB*** mis Tachwedd cynhelir yr Ŵyl Gerdd Dant Genedlaethol, gŵyl undydd fwyaf Cymru pan mae plant, pobl ifainc ac oedolion yn cymryd rhan mewn cystadlaethau sy'n amrywio o ganu gwerin Cymreig i gerdd dant, ac,o unawdau offerynnol ac ensemblau i ddawnsio gwerin. Eleni cynhelir yr Ŵyl hon yng Nghaerdydd.



Gallwch fentro, pe bai'n fyw, y byddai **Maria Jane Williams**, cymeriad diddorol iawn, yno'n mwynhau pob munud!
Fe'i ganed i deulu bonheddig plasty Aberpergwm yng Nglyn-nedd, Morgannwg, ar 4 Hydref 1795. Byddai'r teulu'n cynnal nosweithiau llawen a Gwleddoedd ar gyfer cantorion, dawnswyr a beirdd lleol ac yn eu noddi a'u cefnogi. Derbyniodd addysg dda ond nid ar draul esgeuluso gwreiddiau diwylliannol ac ieithyddol y teulu. Aeth i ysgol fonedd yn Abertawe.



Bywyd hamdden oedd bywyd Maria Jane. Fel merched ifainc dysgedig a chyfoethog y cyfnod, byddai'n mynd i Lundain ar gyfer y tymor ffasiynol ym mis Mai ac yn treulio mis Awst mewn trefi sba fel Llandrindod a Cheltenham. Roedd hi'n gefnogwr brwd o'r Gymraeg a'i thraddodiadau. Dangosodd ddawn gerddorol o ddyddiau cynnar. Gallai ganu'r delyn yn fedrus. Cafodd ei haddysgu gan y telynor a'r cyfansoddwr enwog **Elias Parish-Alvars**, yn wreiddiol o Ddyfnaint. Roedd hefyd yn feistres ar y gitâr ac yn gantores dalentog a fabwysiadodd yr enw Llinos.

Yn wahanol i'r arfer, teithiodd Maria Jane i Iwerddon am ddeufis yn haf


1826 yng nghwmni **Thomas Price ('Carnhuanawc')**, ac aros yn Abaty Adare, cartref teuluol Ieirll Dunraven. Mae tystiolaeth yn



cadarnhau traddodiad lleol iddi fynd yno i roi genedigaeth yn ddirgel i faban anghyfreithlon ail Iarll Dunraven a Mount-Earl, Henry Windham Quin (1782-1850). Ar ddiwedd yr haf dychwelodd i Aberpergwm gyda baban ifanc.



Mae'n debyg iddi deithio o gwmpas Cork a Kerry pan oedd yn Iwerddon a dysgu caneuon gwerin Gwyddelig. Ar y ffordd adref cwrddodd â'r hynafiaethydd Gwyddelig **Thomas Croften Croker (1798-1854)** a sbardunodd ei diddordeb mewn casglu cân a llên gwerin a derbyniodd hyfforddiant ganddo yn y fethodoleg. Canlyniad hyn fu cyhoeddi casgliad o chwedlau gwerin Cymraeg - un o'r rhai cyntaf yn yr iaith Gymraeg ym 1828 fel atodiad i *Fairy Legends and Traditions of the South of Ireland*, *second and third series,* a olygwyd gan Crofton Croker.




Ym 1836, yn dilyn priodas eu brawd hynaf William, cymerodd Maria Jane gyda'i chwaer, Elizabeth Ann brydles gan Iarll Dunrafen ar Ynys-las, tŷ deniadol ym mhentref Blaen-gwrach, Yma y treuliodd Maria Jane weddill ei hoes. Cafodd y tŷ ei ddymchwel ym mhumdegau'r ganrif ddiwethaf.

Roedd Cymdeithas Cymreigyddion y Fenni wedi'i sefydlu yn 1833 gyda'r hynafiaethydd Thomas Price (Carnhuanawc) ac Augusta Hall, Arglwyddes Llanofer (Gwenynen Gwent), y prif noddwr ariannol, yn bennaf gyfrifol am ei llwyddiannau. Trefnid eisteddfodau blynyddol gan y Gymdeithas a

enillodd fri mawr yng Nghymru a thu hwnt. Byddai Maria Jane Williams yn ymweld â Llanofer yn aml. Edmygid ei dawn ar y delyn a'i llais gwych gan y Gymdeithas ac **Arglwyddes Llanover**.



Un o gystadlaethau Eisteddfod Cymreigyddion y Fenni 1838 oedd darparu '*y casgliad gorau o alawon gwreiddiol Cymreig heb eu cyhoeddi, ynghyd â'r geiriau, fel y'u cenir hwy gan werin Cymru'.* Mary Jane Williams enillodd a chafodd ei gwaith ei gyhoeddi dan y teitl *Ancient National Airs of Gwent and Morgannwg 1844,* sef casgliad o ganeuon brodorol y genedl*.* Yn ystod y cyfnod rhwng yr Eisteddfod ac 1844 bu'n ymestyn, golygu, tacluso a chywiro'r casgliad a llunio cyfeiliannau i'r delyn neu'r piano ar gyfer yr alawon. Yn y gyfrol y cyhoeddwyd y gân werin boblogaidd 'Bugeilio'r Gwenith Gwyn' am y tro cyntaf. Mae hefyd yn cynnwys yr alawon adnabyddus Y Deryn Pur a'r Ferch o'r Scêr.



DEDICATED BY SPECIAL PERMISSION TO HER MAJESTY
THE QUEEN.

ANCIENT NATIONAL AIRS
OF
GWENT AND MORGANWG;

Original Welsh Melodies,

COLLECTED AND ARRANGED FOR THE HARP OR PIANO FORTE,

BY
M. JANE WILLIAMS OF ABERPERGWM.

Bu farw Mary Jane Williams yn Ynyslas Cottage ar 10 Tachwedd 1873, sef cant a hanner o flynyddoedd yn ôl i'r mis hwn, a'i chladdu ym meddrod y teulu yn eglwys Aberpergwm. Mae plac er cof amdani a'i chwaer Elizabeth Anne yn yr eglwys.




Gwnaeth Maria Jane gyfraniad pwysig i gerddoriaeth gyda'i chyfrol. Meddai'r Bywgraffiadur Cymreig: *'Ancient National Airs of Gwent and Morgannwg* oedd yr unig gasgliad cyhoeddedig o alawon Cymreig â geiriau Cymraeg tan yr ugeinfed ganrif, ac roedd y wybodaeth a gynhwysai am ganeuwyr gwreiddiol yr alawon yn arloesol.'

.

Meddai Leila Salisbury yn y gyfrol Cydymaith i Gerddoriaeth Cymru: ‘Cafwyd deffroad ym myd cerddoriaeth draddodiadol Cymru gyda gwaith casglu a chofnodi Iolo Morganwg ar drothwy’r 19g. Fodd bynnag, ni welwyd penllanw’r deffroad hwnnw tan ganol y ganrif honno, bron ugain mlynedd wedi marwolaeth Iolo, pan gyhoeddwyd cyfrol Jane Williams.’

***COFIWN*** felly ar achlysur cant a hanner o flynyddoedd ers ei cholli am wraig arbennig a dorrodd dir newydd yn hanes cyhoeddi cerddoriaeth yng Nghymru

**Tudalen Blaen**

Mae’r tudalen blaen yn cynnwys un o ddywediadau bachog Clive Staples (CS) Lewis, gŵr a aned ar 29 Tachwedd 1898 ym Melfast ac a gollwyd ar 22 Tachwedd 1963 yn Rhydychen.



Roedd C S Lewis yn awdur a diwinydd lleyg a chanddo swyddi academaidd mewn llenyddiaeth Saesneg ym Mhrifysgol Rhydychen (Coleg Magdalen) a Phrifysgol Caergrawnt (Coleg Magdalene). Mae'n fwyaf adnabyddus am ei weithiau ffuglen, yn enwedig The Screwtape Letters, The Chronicles of Narnia, a The Space Trilogy, ac am ei ymddiheuriadau Cristnogol ffeithiol, fel Mere Christianity, Miracles, a The Problem of Pain.

Effeithiodd ffydd Lewis yn fawr ar ei waith, a daeth ei ddarllediadau radio amser rhyfel ar bwnc Cristnogaeth â chlod eang iddo. Ysgrifennodd Lewis fwy na 30 o lyfrau sydd wedi'u cyfieithu i fwy na 30 o ieithoedd ac sydd wedi gwerthu miliynau o gopïau. Y llyfrau sy'n rhan o The Chronicles of Narnia sydd wedi gwerthu fwyaf ac wedi cael eu poblogeiddio ar lwyfan, teledu, radio a sinema. Cyfeirir at ei ysgrifau athronyddol yn eang gan ymddiheurwyr Cristnogol o lawer o enwadau.

# CINIO'R OFALAETH





















**CINIO'R OFALAETH**

**Cawsom amser hyfryd yng Nghinio'r Ofalaeth yn Nhafarn y New Cross, Dryslwyn, ar Ddydd Sul, 15 Hydref 2023. Bwyd hynod o flasus – diolch i Moira a'i thim. Does ryfedd felly fod hwyl wedyn ar y canu emynau i gyfeiliant Heather Williams ar y piano. A rhaid oedd canu pen-blwydd hapus i Eurwen Jones, y Priordy, a'i merch Siân. Talwyd y diolchiadau'n hwyliog dros ben gan Peter Hughes Griffiths, yn arbennig Mair Jones, Cana, a'n Gweinidog, Beti-Wyn, am yr holl drefniadau. Diwrnod da!**





**Côr Meibion Caerfyrddin**

**Cyngerdd Dathlu 65 Mlynedd gyda**
**Ffion Haf (Soprano)… Guto Jenkins (Tenor)…**
**Pumawd Llinynnol Gareth Kirby**
**Cyfeilydd ac Organydd Gwadd - Meirion Wyn Jones**
**Llywydd - Jeff Thomas**

**Eglwys Crist Caerfyrddin Dydd Sadwrn 18 Tachwedd- 7pm**

**Tocynnau: £10 - Huw Michael: 07528 719343/ Evans & Wilkins**

***Elw i'w rannu gyda Prostad Cymru***




**Nos Sadwrn 25 Tachwedd 2023**
**Neuadd Bronwydd – 7.30**
**Llywydd**
**Yr Athro Elwen Evans KC**
**Is-ganghellor Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant**
**Elw at Elusen Ambiwlans Cymru**
**Tocynnau: £10 (Catrin Heledd, Alison Parsons, Nia Lewis ac Eirlys Davies)**

**Ryn ni'n ffodus bod un o'n haelodau, sef Huw Michael, yn arbenigwr ar faterion yn ymwneud â ffynonellau ynni. Mae'n un sy'n cyfrannu'n gyson ar y materion hyn ar y cyfryngau torfol. A ninnau ar drothwy'r gaeaf, diolch iddo am ein goleuo'r tro hwn am y pwmp gwres fel ffordd o wresogi'n cartrefi.**



## PWMP GWRES – Y DYFODOL AI PEIDIO?

***MAE'R*** Llywodraeth yn gweld pwmpiau gwres fel y ffordd i gael gwared ar allyriadau carbon o systemau gwresogi tai.

Maen nhw'n annog perchnogion cartrefi i newid eu system cynhesu tai o foeler nwy neu olew i bwmp gwres. Erbyn hyn, fel y cyhoeddwyd ym mis Medi eleni, maen nhw'n barod i roi £7.5k o grant (wedi'i gynyddu o £5k) tuag at y gost o newid. Ond mewn gwirionedd dim ond at hanner neu lai o'r gost fydd £7.5k yn ei gyfrannu.

### Pwmpiau gwres



Sut mae pwmp gwres yn gweithio?
Mae fel system rhewgell ond y ffordd arall rownd. Mae'n tynnu gwres o'r awyr (neu'r ddaear) ac yn ei drosglwyddo i ddŵr i gynhesu tŷ ac i ddarparu dŵr poeth.

Mae gwres y dŵr yn y system gwresogi yn is na gyda boeler nwy neu olew.  Felly mae angen rhwyllau (radiators) mwy o faint i dwymo'r ystafell. Mae pwmp gwres yn siwtio gwres dan y llawr ond yn aml mae'n rhaid cynyddu maint rhwyllau eraill.

Mae angen lle ar gyfer y cyfarpar – llawer mwy o le na boeler nwy neu olew. Mae'r pwmp gwres y tu fas i'r tŷ, ond mae'r synlindrau a'r cyfarpar rheoli y tu mewn i'r tŷ. Mae angen lle mewn garej neu ystafell fach i gynnwys yr holl gyfarpar. Mewn tŷ newydd gellir cynllunio am hyn, ond mewn tai sydd wedi'u hadeiladu'n barod, bydd yn anodd creu'r lle.

### Effeithlonrwydd a chost

Mae pwmp gwres yn fwy effeithlon na boeler nwy neu olew ac yn gallu

troi 1kWh o drydan i 4 kWh o wres. Y drafferth yw bod 1 kWh o drydan yn costio pedair gwaith 1 kWh o nwy. Felly, does dim mantais o ran



cost gwresogi tŷ heblaw fod cost trydan yn cwympo o gymharu â chost nwy. (Mae cost trydan 15% yn uwch na ddylai fod o ganlyniad i'r trethi amgylcheddol nad ydynt yn bresennol yng nghost nwy.) Mae nifer wedi dadlau y dylai'r trethi amgylcheddol hyn gael eu symud i nwy yn lle trydan os yw'r llywodraeth o ddifrif am i bobl fabwysiadu pwmpiau gwres.

**Ynni glân ai peidio?**

Ydy pwmp gwres yn "lanach" mewn gwirionedd na boeler nwy? Dadleuol. Ar hyn o bryd mae unrhyw alw ychwanegol am drydan o'r grid yn cael ei fodloni trwy gynyddu cynnyrch trydan o dyrbinau nwy. Mae tyrbinau gwynt a phaneli solar wedi eu defnyddio i'r eithaf yn barod. Yn y dyfodol, pan fydd tyrbinau gwynt ar y môr yn gallu cynhyrchu mwy o drydan, efallai y gwelwn drydan o'r tyrbinau hyn yn cwbl ddisodli trydan o dyrbinau nwy ar ddiwrnodau gwyntog.

Fel mae pethau heddiw, nid yw pwmp gwres ychwanegol yn defnyddio trydan "glân" ond yn hytrach drydan a gynhyrchir gan dyrbinau nwy. Felly, gallwch ofyn beth yw'r pwynt disodli boeler **nwy** gyda phwmp gwres sy'n dibynnu ar drydan wedi'i gynhyrchu gan dyrbinau **nwy**? Does dim mantais o ran allyriadau carbon!

**Yr her**

Y gwir yw bod angen amgylchiadau arbennig cyn bod pwmpiau gwres yn mynd i ostwng y bil gwresogi:

1) Inswleiddio o'r radd uchaf – EPC A neu B – fel y gelli ei ddisgwyl mewn tai newydd, ond sy'n gostus iawn i dai eraill.
2) Y llywodraeth yn gorfodi pwmpiau gwres (fel y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu'i wneud o 2025 ar gyfer tai newydd).
3) Grantiau uwch i dalu mwy o'r gost, gan gynnwys insiwleiddio.

I wireddu nod y llywodraeth, bydd rhaid gofalu fod y trydan ychwanegol a fydd ei angen yn cael ei gynhyrchu heb gynyddu allyriadau carbon, a bydd rhaid darbwyllo perchnogion tai na fydd

yn costio mwy iddynt os byddant yn newid eu system gwresogi.



***MAE*** ffordd bell i fynd cyn gwireddu'r nod o ddefnyddio trydan "glân" i wresogi mwyafrif tai'r wlad.

**Adroddiad gan Huw Jones (Cadeirydd) ar ran Is-bwyllgor yr Adeiladau**

Mae stormydd y gaeaf wedi cyraedd ac wedi gwneud tipyn o lanast yn y Capel eto. Mae dŵr ofnadwy yn dod i mewn eto,bron bob tro y cawn law trwm a gwynt Mae'n llifo i mewn trwy'r waliau ac rwyf yno'n aml yn mopio.





Er nad ydym fel pwyllgor wedi cyfarfod ers tro mae gwaith cynnal a chadw'r capel yn dal i gael ei wneud.




Mae'r tasgau'n cynnwys cadw'r chwyn i lawr, glanhau'r cerrig sydd wedi syrthio o flaen y capel a chadw'r llwybr sy'n arwain i lawr at y festri'n lân.

***Mae'n diolch yn fawr i Huw a'i dîm am fod yn wylwyr ar y tŵr a gofalu am yr adeiladau gorau y gallant***



**CARTREF PLAS Y DDERWEN**
**GWASANAETH NADOLIG**
***gyda'n Gweinidog***
**Prynhawn Dydd Gwener, 15 Rhagfyr 2023 am 2.30**
***Croeso cynnes i bawb***

## AGOR Y LLYFR YN YSGOL Y DDERWEN



## CWRDD DIOLCHGARWCH CLWB FFERMWYR IFAINC DYFFRYN TYWI A GYNHALIWYD YN Y PRIORDY



**Carys Morgans, Swyddog Cyswllt y Gefeillio**
***yn cyflwyno...***

# NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

## Gŵyl Diolchgarwch - Oedfa Deulu - 15 Hydref



Cafodd y plant a'r ieuenctid gyfle i ddod â ffrwythau neu flodau i'r oedfa Fe'u rhannwyd rhwng aelodau hŷn y capel a'r rhai sydd mewn cartrefi gofal .




Roedd cyfle hefyd i dderbyn blwch 'Pringles' i gasglu darnau 5,10 neu 20 ceiniog. Roedd arian y blychau'n cychwyn APÊL FFYNHONNAU BYW'. Casglwyd £194.

## Rheiliau'r Capel



Cychwynnwyd ar y gwaith o'u glanhau a'u paentio yng Ngorffennaf .

Enw'r prosiect oedd M R S (Marathon Railing Salem). Gorffennwyd y gwaith ganol Hydref.

Byddai'r aelodau a wirfoddolodd wedi gorffen ynghynt pe bai Ifan y glaw wedi bod yn garedicach!

Cofiwch - pan ddowch i Gaernarfon fod ymweld â rheiliau capel Salem yn bwysicach nag ymweld â'r Castell!!

# APÊL TEGANAU NADOLIG CYNGOR SIR GÂR

**A wyddoch fod gwir angen cymorth ar gannoedd o deuluoedd Sir Gaerfyrddin y Nadolig hwn?**

Byddwn yn cefnogi'r Apêl Cyngor Sir Gâr unwaith eto eleni. Mae'r Apêl wedi sicrhau bod plant lleol, a fyddai fel arall ond yn derbyn nifer bach iawn o anrhegion neu ddim anrhegion o gwbl, yn cael anrheg adeg y Nadolig

**Y llynedd, fe wnaethoch ein helpu i ddarparu dros 9,900 o anrhegion i 1,650 o blant ac ni fyddai wedi bod yn bosibl heb eich cefnogaeth CHI.**

Eleni yn y cyfnod digynsail hwn rydym yn dibynnu ar eich cefnogaeth yn fwy nag erioed. Mae angen eich caredigrwydd, eich haelioni, a'ch llawenydd arnom unwaith yn rhagor. Rydym yn edrych ymlaen ac yn gobeithio y byddwch yn gallu ein helpu eleni eto.

Pan fyddwch chi allan yn siopa Nadolig eleni, cofiwch am y teuluoedd hynny sy'n llai ffodus a phrynwch anrheg ychwanegol ar gyfer yr Apêl Teganau Nadolig. Bydd pob anrheg sy'n dod i law yn gwneud gwahaniaeth i deuluoedd a fyddai fel arall yn ystyried dydd Nadolig yn ddiwrnod arferol!

**Pa fath o anrhegion ydym ni'n chwilio amdanynt?**

**Rydym yn chwilio am anrhegion ar gyfer pob oedran; o fabanod 18 mis oed i fyny at bobl ifanc yn eu harddegau. Byddem yn ddiolchgar pe na fyddech yn lapio'r anrhegion oherwydd byddant yn cael eu dosbarthu gan y tîm o wirfoddolwyr sy'n gweithio ochr yn ochr â'r teuluoedd.**

**BYDD BLYCHAU YN Y CAPEL O SUL CYNTAF TACHWEDD YMLAEN I DDERBYN EICH RHODDION.**

**DIOLCH O FLAEN LLAW AM EICH CEFNOGAETH**

**DIOLCH YN FAWR**

**Diolch i Beti-Wyn, Betsan James, Syfi Rolant, Angharad Wyn a Lowri Davies am y lluniau'r mis hwn.**

# ETHOL DIACONIAID NEWYDD

**Mae tymor y diaconiaid a gafodd eu hethol gennym yn 2016 yn prysur ddirwyn i ben. Byddwch yn cofio, dan ein rheoliadau newydd, mai cyfnod o saith mlynedd bellach yw tymor gwasanaeth diacon.**

**Y diaconiaid a gafodd eu hethol y pryd hwnnw oedd GWYNFOR DAVIES, CATRIN HELEDD JONES a PHILIP JONES. Mawr yw ein diolch am eu cyfraniad rhagorol dros y saith mlynedd diwethaf.**

**Gan fod tri yn gorffen a'n bod hefyd wedi colli dau ddiacon yn ystod 2022, sef y diweddar David Lloyd a'r diweddar Wyn Evans, rydym wedi penderfynu symud ymlaen i ethol PUM DIACON NEWYDD y tro hwn.**

**Bydd pob aelod, felly, yn derbyn ffurflen bleidleisio drwy law'r dosbarthwyr neu drwy'r post tua chanol mis Tachwedd. Bydd angen dychwelyd pob pleidlais erbyn DYDD SUL, 3 RHAGFYR 2023, naill ai'n bersonol yn ystod yr oedfaon neu drwy'r dosbarthwyr. Bydd blwch ar gyfer derbyn pleidleisiau yng nghyntedd y capel.**

**Bydd enwau'r diaconiaid newydd yn cael eu cyhoeddi gan ein Gweinidog ar FORE SUL 10 RHAGYFR 2023 Byddant yn cael eu derbyn i'r ddiaconiaeth gan ein Gweinidog yn yr oedfa ar FORE SUL CYNTAF Y FLWYDDYN NEWYDD, sef 7 IONAWR 2024**

**A wnewch chi gofio, os gwelwch yn dda, nad oes hawl gennych i bleidleisio'r tro hwn dros y diaconiaid y mae eu tymor yn dirwyn i ben yn awr. Rhaid aros am saith mlynedd arall cyn y bydd modd i chi ystyried eu hethol yn ddiaconiaid unwaith eto. Mae hawl gennych i bleidleisio am bum diacon newydd a hyderwn y bydd modd i chi ddefnyddio'ch pleidlais yn llawn. Fodd bynnag, os ydych yn dymuno pleidleisio i lai na phump, yna mae hawl gennych i wneud hynny.**

**Os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch, mae croeso i chi gysylltu â'n Gweinidog neu un o'r diaconiaid / ymddiriedolwyr.**

# DYLETSWYDDAU

## GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Tachwedd | | Rhagfyr | |
|---|---|---|---|
| Gofalwr | Gwresogwr | Gofalwr | Gwresogwr |
| Jayne Woods | Huw Jones | Dennis Jones | Huw Michael |

## BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Tachwedd | 5 | | Rhagfyr | 3 | |
| | 12 | Enid Wyn Jones | | 10 | |
| | 19 | | | 17 | |
| | 26 | Dienw | | 24 | |
| | | | | 31 | Dienw |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tachwedd | 5 | Bore | Mwynwen Jones a Thelma Evans |
| Rhagfyr | 3 | Bore | Catrin Mair Jones ac Alison Parsons |

## DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Tachwedd | 5 | Y Plant | Rhagfyr | 3 | Meinir Jones |
| | 12 | Eirlys Davies | | 10 | Oedfa Nadolig |
| | 19 | Alwen Owen | | 17 | Alun Charles (Cana) |
| | 26 | Sulwyn Thomas | | 24 | Aelodau (Oedfa ddigidol) |
| | | | | 31 | Oedfa'r Ofalaeth |

## CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tachwedd | Adrian Evans | Rhagfyr | Catrin Heledd Jones |

# RHWYDWAITH

***EIN*** cofion cynnes at bawb sy’n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy’n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i’w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn yn arbennig ar hyn o bryd am Eira Jenkins (Caerdydd).



Ar drothwy Diwrnod Shwmae Su’mae? ac Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg ar Radio Cymru cawsom ein hatgoffa ar **Bore Cothi** ar **BBC Radio Cymru** ei bod yn hanner can mlynedd ers sefydlu’r Cwrs Wlpan cyntaf yng Nghymru fel dull dwys o ddysgu Cymraeg i Oedolion gan y diweddar Chris Rees yng Nghanolfan yr Urdd yng Nghaerdydd. Ym 1977 bu aduniad o’r grŵp gwreiddiol. Aeth Hywel Gwynfryn i’r archifdy ar Raglen Siân Cothi a dod ar draws Sulwyn Thomas yn cynnal cyfweliad â Chris Rees a hefyd ambell diwtor a dysgwr, sydd bellach yn rhugl, a fu ar y cwrs gwreiddiol. Mae sawl person wedi croesi’r bont a dod yn siaradwyr Cymraeg naturiol o ganlyniad i’r Wlpan ac mae’n dyled yn fawr i’r arloeswyr cynnar.

Bu Carys Edwards yn adolygu’r papurau ar **Pnawn Da** ar **S4C** un prynhawn – ar adeg pan oedd erchyllterau’r Dwyrain Canol yn mynnu’r penawdau. A bu Myfanwy Jones, Cyfarwyddwr Mentrau Iaith Cymru, yn trafod ei swydd newydd gydag Iwan Griffiths ar **Bore Sul** ar **Radio Cymru** a hefyd ei chariad at jiwdo!! Cafwyd portread o Myfanwy yn ogystal yn un o rifynnau diweddar **Golwg**.

Bu **Pnawn Da** ar **S4C** yn nodi Diwrnod Menopos ac un o’r gwesteion a fu’n sgwrsio am y symptomau a’u heffaith oedd Alison Parsons.

***EITEM*** ddiddorol ar **Raglen Aled Hughes** ar **Radio Cymru** oedd honno’n trafod Emynau Llafar Gwlad. Cyfeiriwyd yn arbennig at y casgliad a gofnodwyd gan yr amaethwr diwylliedig David Griffiths, Pont-ar-lyb, y mae’r gantores Lleuwen Steffan yn seilio gwaith arnynt. Yr un a fu’n sôn am hanes David Griffiths, gŵr a fu’n ffyddlon iawn i Gapel Amor, Llanfynydd, oedd ei wyres, ein Mwynwen Mai Jones ni! Peidiwch â phoeni os colloch chi’r eitem – bydd yr hanes yn rhifyn nesaf Papur Priordy!

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Rhagfyr i’n Gweinidog neu Alun Charles**

**CYDYMDEIMLAD**

**Trist oedd colli Norah Hughes, Cartref Castell Tywi (gynt o Erw Hir) ar 13 Hydref 2023 a hynny mor fuan ar ôl iddi ddathlu'i phen-blwydd yn 100 oed. Cofiwn yn annwyl iawn amdani fel un o ffyddloniaid y Priordy a pherson triw i'r diwylliant Cymraeg. Meddyliwn am y teulu cyfan yn eu colled. Cynhelir angladd gyhoeddus ar Brynhawn Dydd Iau, 9 Tachwedd am 2 yn Amlosgfa Treforus. Bydd teyrnged iddi gan ein Gweinidog yn ein rhifyn nesaf.**

**Cydymdeimlwn â Harry Evans ar golli dwy chwaer yng nghyfraith yn weddol agos at ei gilydd yn lled ddiweddar, sef Sarah Evans a Glenys Evans, y ddwy o Bentrecwrt. Meddyliwn am yr holl gysylltiadau yn eu galar a'u hiraeth.**

**Mae'n cydymdeimlad hefyd â Martin a Lowri Waterworth ar golli modryb Lowri, sef Ann Beer yng Nghartref Bryn Derwen ar 8 Hydref 2023. Daeth i'r Cartref yn gymharol ddiweddar ar ôl treulio dros 70 o flynyddoedd yng nghyffiniau Llundain ac ym Mryste. Meddyliwn am y teulu cyfan yn eu colled.**

**Clywsom yn ogystal am golli Morlais Brooker, Heol y Prior, gŵr Margaret a thad Bethan a'r diweddar Andrew a thad-cu'r plant. Cofiwn amdanynt oll yn eu profedigaeth. Cynhelir angladd gyhoeddus yn y Priordy ar Brynhawn Dydd Gwener, 10 Tachwedd 2023 am 12.45 ac yna yn Amlosgfa Treforus am 2.30.**

**CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN**



**CWRDD CHWARTER**
**Dydd Iau, 23 Tachwedd 2023**
**Bryn Iwan**

**Y Gynhadledd am 10.30**
**Cyfarfod y Prynhawn am 1.30**
**Ceir Oedfa Gymun ac Anerchiad gan y Cadeirydd Newydd**
**Y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor**



**Croeso i bawb**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Tachwedd** | **5** | ***Bore*** | Oedfa Deulu a Chymundeb gyda'n Gweinidog<br>Cynhelir Cwrdd Eglwys | **C** |
| | **12** | ***Bore*** | Ein Gweinidog | |
| | **19** | ***Bore*** | Ein Gweinidog | |
| | **26** | ***Bore*** | Y Parchedig Judith Morris | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhagfyr** | **3** | ***Bore***<br>***Hwyr*** | Ein Gweinidog<br>Gwasanaeth Plygain Merched y Wawr yn Y Tabernacl am 7.30 | **C** |
| | **10** | ***Bore***<br>***Hwyr*** | Cwrdd Nadolig y Priordy am 10<br>Gwasanaeth Nadolig PIP dan Olau Cannwyll am 5 | |
| | **17** | ***Bore***<br>***Hwyr*** | Oedfa'r Ofalaeth yng Nghana gyda'n Gweinidog<br>Oedfa'r Ofalaeth yn y Gymuned ym Mancyfelin gyda'n Gweinidog am 6 | |
| | **24** | ***Bore***<br>***Hwyr*** | Oedfa Ddigidol gyda'n Gweinidog<br>Epilog dros zoom gyda'n Gweinidog am 9 | |
| **Bore Nadolig** | **25** | ***Bore*** | Oedfa Deulu'r Ofalaeth gyda'n Gweinidog am 9 | |
| | **31** | ***Bore*** | Oedfa'r Ofalaeth ym Mancyfelin gyda'n Gweinidog | |

**CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC**

**✓ Ysgol Sul   PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul   CP – Cwrdd Plant**
**OD – Oedfa Deulu   ON – Oedfa Nadolig**

| Tachwedd | | | | Rhagfyr | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | 12 | 19 | 26 | 3 | 10 | 17 | 24 | 31 |
| OD | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ON | - | - | - |

**CWRDD EGLWYS**
**5 TACHWEDD - WEDI'R OEDFA**

**Y GYMDEITHAS**
**Dydd Mawrth, 7 Tachwedd 2023 – 2.00**
**Ymweliad ag Amgueddfa Sir Gâr, Abergwili yng nghwmni Peter Hughes Griffiths. Paned i ddilyn.**

**Rhyddheir oedfa ddigidol bob Sul**